**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd trwy feddalwedd zoom nos Lun, Ionawr 11eg 2021 am 7.30yh**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Iain G Roberts, Wenda Williams, Dafydd Williams, Gwenllian Hughes Jones, Mari Evans, Nesta Roberts, Emlyn Jones, Mari Evans, Gareth Roberts
**Yn y gadair:** Cyng Geraint Jones
**Cyhoeddiadau y Cadeirydd:** Cydymdeimlwyd â'r Cyng Iain Roberts sydd wedi colli ei fam yn ddiweddar. Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb :</u>** Derbyniwyd ymdddiheuriadau gan y Cynghorwyr RG Williams a Wil Evans. Datganodd y Cyng Iain G Roberts ddiddordeb yng nghais cynllunio C20/1077/30/LL
**2)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Dachwedd 2020 ynghyd a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar y 19eg o Dachwedd:</u>** Derbyniwyd cofnodion y ddau gyfarfod fel rhai cywir.
**3) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Cae Chwarae:** Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones, adroddodd fod grant o dros £7,900 wedi ei dderbyn gan gronfa Cist Gwynedd sydd wedi galluogi prynu mwy o offer chwarae ynghyd a bin sbwriel.
Cytunodd y Cyngor i ymestyn y ffens a rhoi giat newydd ond mae angen cysylltu gyda perchennog Gladstone o ran cwrteisi, mae pris o £260 wedi ei dderbyn gan Gareth Gough ar gyfer y gwaith ychwanegol. Mae'r clerc yn mynd i gysylltu gyda perchennog Gladstone. Pwysleiswyd fod angen giat a camera cylch cyfyng ar fyrder oherwydd fod criwiau ifanc yn ymgynull yn y cae. Penderfynwyd gwneud yn sicr ei bod yn gyfreithlon i osod camera yn y cae.
Diolchwyd i'r Cyng Gwenllian Hughes Jones am ei gwaith.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Penderfynwyd y bydd yr eglwys ar gau dros dro am resymau iechyd a diogelwch oherwydd fod ei chyflwr yn dirywio. O ganlyniad ni fydd unrhywun yn cael mynediad i'r adeilad heb awdurdodiad y Cyngor. Y cam nesaf fydd cynnal cyfarfod cyhoeddus er mwyn cael barn y gymuned a cheisio ennyn cefnogaeth i ymdrechion i godi arian ar gyfer cyflawni y gwaith angenrheidiol ar yr adeilad. Datganodd y Cyng Wenda Williams nad yw hi yn cytuno gyda'r penderfyniad yma i gau yr eglwys dros dro. Penderfynwyd ysgrifennu erthygl i'r wasg yn egluro sefyllfa yr eglwys.
**iii)Ymateb Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
i)Arwydd cyfyngiad '30' goleuedig ger Cwt Chwarel, Aberdaron: Nid oes gan y Cyngor y cyllid i arianu arwyddion or fath. Rhoddwyd cynnig i bob Cyngor Cymuned rai blynyddoedd yn ôll, iddynt arianu'r arwyddion os oeddent yn dymuno rhai yn ei ardal, ac mae'r cynnig yma dal yn sefyll. Amcan cost yr arwydd (wedi ei osod) yw £3,000- £5,000. Yn ychwanegol i hyn, rhaid cynnwys costau cynnal a chadw. Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd ar hyn o bryd.
**ii)Cais am arwydd 'Araf/Slow' ger Eglwys Bodferin:** Addawyd y byddai swyddog yn ymweld â'r safle, ond does dim arwydd wedi ei osod hyd yma.
**iii)Arwydd troeadau peryglus (troeadau S), ger Geufron, Aberdaron:** Addawyd y byddai y cais yn cael ei asesu.
**iv)Canolfan Crud y Werin:** Mae llythyr wedi ei anfon at y pennaeth yn dilyn y penderfyniad yn mis Tachwedd, cydnabyddwyd derbyn y llythyr a mae hi am ymateb yn ffurfiol yn dilyn trafod gyda'r Corff Llywodraethol.
**v)AwyrDywyll:** Adroddwyd fod cais yn cael ei gyflwyno ar ran yr ardal, ac mae y Cyngor Cymuned yn parhau i fod yn gefnogol i'r cais.
**4) <u>Gohebiaethau</u>**
i)Llythyr gan Cai a Sioned Williams ynghylch diffyg biniau ailgylchu er mwyn cael gwared o sbwriel y traeth yn Aberdaron: Tynnwyd sylw at y ffaith fod trafodaethau wedi bod gyda Steffan Jones a Barry Davies o Gyngor Gwynedd ynghylch cael bin ar y llithrfa ond nad ydi y bin wedi ei ddarparu. Penderfynwyd anfon at y swyddogion i ofyn am fin ac hefyd i ofyn am gyfarfod er mwyn trafod trefniadau y traeth ar gyfer y tymor ywmelwyr nesaf.

Gofynnodd Cai a Sioned Williams os ydi y Cyngor Cymuned yn bwriadu datgan cefnogaeth i ymgyrch annibynniaeth i Gymru 'Yes Cymru' - penderfynwyd bmai mater i'r unigolyn ydi datgan barn am yr ymgyrch ac noid i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

**ii)Cais Trwydded eiddo Glampio Coed, Coed y Llan, Rhoshirwaun:** Er gwybodaeth yn unig

**5) <u>Cynllunio</u>**

C20/0952/30/DT: Codi estyniad unllawr cefn, Parc Melyn, Rhoshirwaun: Dim gwrthwynebiad
C20/0950/30/LL: Dymchwel adeilad presennol a chodi estyniad newydd, Ty Mawr, Lon Uwchmynydd: Dim gwrthwynebiad
C20/1077/30/LL: Strwythr adlen a ellir ei dynnu yn ôl i ddarparu cysgod i'r teras presennol gyda gwydr uchder llawn ar gyfer amddiffyn rhag pob tywydd, Tŷ Newydd, Aberdaron: Dim gwrthwynebiad

**6)Ariannol**

**Pennu praesept ar gyfer 2021-22:** Cyflwynwyd cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i'r aelodau ynghyd a mantolen ariannol hyd yma eleni. Nodwyd fod swm sylweddol o arian wrth gefn ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd gwariant fydd yn angenrheidiol ar y cae chwarae, yr Eglwys Newydd a'r fynwent sydd oll yn safleoedd y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt ac mae'n rhaid cael arian wrth gefn er mwyn gwaith cynnal a chadw. Rhagwelir y bydd rhaid gwario yn sylweddol ar yr eglwys. Yn dilyn asesiad o'r gyllideb ddrafft, penderfynwyd codi yr un swm o braesept eleni a llynedd, sef £15,000.

**Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol trwy daliadau dros y we:
HMRC (Paye): £88.60 (2 fis)
Archwiliad mewnol: £192
ICO: £35 (gostyngiad o £5 o ganlyniad i daliad trwy ddebyd uniongyrchol, taliad wedi ei awdurdodi yn Nhachwedd)
Cyngor Gwynedd: £2,000 (cynnal y toiledau, penderfynwyd gofyn i'r Grwp Twristiaeth am gyfraniad fel sydd yn arferol)
CCD Web cynnal gwefan Cyfeillion yr Eglwys Newydd: £110 (taliad yn ddyedus o gyfri y Cyfeillion, ond gan bod arian y Cyfeillion yn y broses o gael ei symud i gyfri banc yng ngofal y Cyngor dros dro mae'n bosib bydd rhais talu o gyfri cyfredol y Cyngor a symud y swm o'r cyfrif Cyfeillion i gyfri cyfredol y Cyngor)
Bydd y canlynol yn cael eu dalu trwy siec pan y bydd hynny yn bosibl wedi i'r cyfnod clo ddod i ben:
Iwan Hughes: £709.44 (cyflog 4 mis)
Costau clercio: £38.71
Iwan Hughes: £40 (cofrestru 8 claddedigaeth)
Talwyd y swm o £486.28 trwy ddebyd uniongyrchol i Scottish Power am drydan yr eglwys rhwng Hydref a Ionawr, nodwyd fod y taliad yn seiliedig ar amcan o ddefnydd ac yn aruthrol o uchel, yn enwedig o ystyried nad ydi yr eglwys yn cael eu defnyddio. Bydd y clerc yn anfon darlleniad union i Scottish Power.

**Derbyniadau**

Cyngor Gwynedd: £1623 (grant y gofeb)
Eglwys Sant Hywyn: £150 (cyfraniad at y gofeb)
Scottish Power: £210.22 (ad-daliad trydan yr eglwys)
Cyngor Gwynedd: £650 (grant llwybrau)

**7) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Ni dderbyniwyd cyfraniad tuag at gynnal y toiledau gan y Grwp Twristiaeth llynedd a derbyniwyd cais ar lafar am gyfraniad gan y Cyngor Cymuned tuag at wifi cymunedol y pentref. Penderfynwyd gofyn i'r Grwp Twristiaeth am dystiolaeth o gôst y wifi cymunedol.
ii)Adroddwyd fod tyllau yn y ffordd ger Cae'r Efail, ym mhen lôn Tŷ Rhos, Rhoshirwaun a bod angen barbio y ffordd rhwng Bryn Llan a'r Fantol.
iii)Derbyniwyd cwyn fod baw ci ar Bont Rhyd y Cei ger Tŷ Isaf, Aberdaron.

iv)Adroddwyd fod ceir yn parhau or-yrru ar y ffordd heibio Eglwys Bodferin, a phenderfynwyd cysylltu gyda Cyngor Gwynedd eto ynglyn â'r mater yma.
v)Derbyniwyd cwynion nad ydi Cyngor Gwynedd yn graeanu y ffordd o waelod gallt Y Rhiw i Fynytho a bod y ffordd yn hynod beryglus yn ystod y tywydd rhewllyd diweddar. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd godi lefel blaenoriaeth y ffordd yma oherwydd ei phwysigrwydd yn cysylltu Y Rhiw a'r ardal amgylchynol er mwyn iddi fod yn rhan o gylchdaith graenu Cyngor Gwynedd. Hefyd tynnwyd sylw fod y ffordd o Eglwys Bodferin i Aberdaron wedi bod yn llithrig yn ystod y cyfnod yma ac mae bws gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio y ffordd yn rheolaidd hefyd.
vi)Derbyniwyd ymholiad ynghylch lleoliad goriadau y giat sydd ar fynedfa traeth Aberdaron ger Tŷ Newydd. Cadarnhawyd bod un yn Tŷ Newydd. Penderfynwyd gofyn i'r Adran Forwrol am arwydd yn rhoi rhif ffôn yr Adran a rhif Tŷ Newydd er mwyn eu defnyddio mewn achos o argyfwng os bydd angen agor y giat er mwyn cael mynediad i'r traeth.
vii)Mae gwter ar y ffordd rhwng Aberdaron a Rhoshirwaun (ger y troead am fynydd yr Ystum) wedi llenwi a mae dwr yn llifo ar draws y ffordd i gwter ar yr ochr arall sydd hefyd yn llawn.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o Gyngor Cymuned Aberdaron, nos Lun, Chwefror yr 8fed am 7.30y.h**